**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL CYNRYCHIOLAETH Y BOBL**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd Bil *Cynrychiolaeth y Bobl* ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Chwefror 2026. Gellir dod o hyd i'r Bil yma: Bil Cynrychiolaeth y Bobl - Biliau Seneddol - Senedd y DU

3. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn nodi barn y Llywodraeth Cymru bresennol. Gan fod y gwaith o graffu ar y Bil yn Senedd y DU yn estyn y tu hwnt i etholiad nesaf y Senedd a gynhelir ar 7 Mai 2026, bydd angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol newydd i adlewyrchu'r Bil wrth iddo fynd ar ei hynt ac i roi barn y Llywodraeth Cymru a ffurfir ar ôl yr etholiad.

**Amcan(ion) Polisi**

4. Amcanion polisi hirdymor datganedig Llywodraeth y DU yw cryfhau, moderneiddio a gwella democratiaeth. Yn "Restoring trust in our democracy: Our strategy for modern and secure elections", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, bu i Lywodraeth y DU nodi pedair prif dasg:
    - diogelu ein democratiaeth at y dyfodol ("futureproofing our democracy");
    - sicrhau ein hetholiadau ("securing our elections");
    - cynnal ein gwerthoedd ("upholding our values"); a
    - diogelu ein hetholiadau rhag ymyrraeth ("protecting our elections against interference").

5. Drwy'r Bil hwn, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu adfer ymddiriedaeth yn y system wleidyddol, cryfhau democratiaeth ac annog cyfranogiad mewn etholiadau drwy symleiddio, diogelu a hybu democratiaeth. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy newidiadau i'r etholfraint etholiadol, i'r prosesau cofrestru, i'r fframwaith cyllid gwleidyddol, i'r rheolau ymgyrchu ac i'r prosesau pleidleisio. Mae'r crynodebau polisi ar gael yma.

[1] Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, sylwch ein bod yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn fel "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

7. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth:

- i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau cadwedig i 16 mlwydd oed;
- i gyflwyno gwelliannau i'r gyfundrefn cofrestru pleidleiswyr, gan gynnwys peilota pwerau ar gyfer cofrestru heb geisiadau;
- ar gyfer newidiadau gweinyddol i'r modd y caiff etholiadau, refferenda a deisebau adalw eu gweithredu i leihau'r risgiau o ran eu cynnal;
- i gyflwyno mesurau y bwriedir iddynt gryfhau'r system pleidleisio absennol a phleidleisio drwy'r post;
- i gryfhau'r rheolau cyllid gwleidyddol o ran rhoddwyr gwleidyddol a rhoddion;
- ynghylch gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn deunydd ymgyrchu electronig;
- i estyn rôl a phwerau'r Comisiwn Etholiadol – yn ymwneud â datgelu gwybodaeth, sancsiynau sifil, darparu caniatâd i dalu, a chael ffurflenni;
- i ailddosbarthu ystod o droseddau gweinyddol o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- ynghylch anghymhwyso troseddwyr rhag dal swyddi etholedig, a'u dedfrydiad, pan fo troseddau wedi'u gwaethygu gan elyniaeth tuag at bersonau sy'n ymwneud ag etholiadau, refferenda neu ddeisebau adalw neu ddeiliaid swyddi o'r fath; ac
- ynghylch cyfeiriadau asiantau etholiad.

8. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chynlluniau i gyflwyno Bil Etholiadau eang ar 17 Gorffennaf 2025 drwy gyhoeddi Restoring trust in our democracy: Our strategy for modern and secure elections.

9. Yn unol â nod Llywodraeth y DU o weithio mewn ffordd gydweithredol â'r llywodraethau datganoledig ar y meysydd hyn, mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn ystod y broses o lunio'r Bil. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau polisi ar feysydd penodol ac maent wedi cael cyfle i roi sylwadau ar y gwaith o lunio'r ddeddfwriaeth ac i gyfrannu at y gwaith hwnnw, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl o fewn y cyfnod a oedd ar gael, i sicrhau bod effeithiau datganoledig yn cael eu hystyried yn llawn. Er bod hyn wedi helpu i hwyluso mesurau deddfwriaethol sy'n parchu'r setliad datganoli gan ganiatáu ar yr un pryd ar gyfer cysondeb pan fo hynny'n ymarferol ac yn ddymunol, roedd maint a chymhlethdod y Bil, a'i esblygiad parhaus hyd at ei gyflwyno, yn her o ran cynnal dadansoddiad o fewn yr amserlen arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29.

10. Mae’r Bil yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol i ostwng yr oedran pryd y gall pobl bleidleisio yn holl etholiadau’r DU i 16. Mae hyn yn unol â’r etholfraint estynedig sydd eisoes yn ei lle ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru, fel y’i cyflwynwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae’r Bil hefyd yn cymryd camau tuag at greu system gofrestru awtomeiddiedig. Cafodd dulliau o wireddu hyn eu peilota eisoes yng Nghymru ac mae camau’n cael eu hystyried i’w rhoi ar waith yn llawn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

11. Mae’r memorandwm a ganlyn yn ystyried materion y byddai modd eu rhoi ar waith yn uniongyrchol drwy ddeddfwriaeth y Senedd, ac sydd yn amlwg yn faterion datganoledig y mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar eu cyfer.

12. Tra bo rhai o ddarpariaethau’r Bil yn ymddangos fel pe baent yn ymwneud yn unig â materion cadwedig o ran etholiadau Senedd y DU ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr drwy ddiwygio deddfwriaeth gadwedig – ac felly y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd – mae’r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth mewn mannau a fyddai’n effeithio ar weinyddiaeth etholiadau’r Senedd a/neu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Byddai’r rhain yn gyfystyr â darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rhoddir sylw iddynt, fel y bo’n gymwys, isod.

<u>Rhan 1 Pleidleiswyr ifanc</u>

13. **Cymal 15 Dyletswydd i godi ymwybyddiaeth a darparu cynhorthwy: Prydain Fawr.** Mae’r cymal hwn yn cyflwyno darpariaeth newydd sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol godi ymwybyddiaeth a darparu cynhorthwy i bersonau ifanc perthnasol ynghylch y trefniadau ar gyfer eu cofrestru ar gyfer etholiadau seneddol, a chymryd y camau y mae’r awdurdodau’n ystyried eu bod yn angenrheidiol i helpu’r bobl berthnasol hynny i gofrestru.

14. Er nad yw’r darpariaethau hyn yn estyn i etholiadau datganoledig yng Nghymru, gan eu bod yn rhoi dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru, ac felly’n cael effaith ar waith gweinyddol yr awdurdodau Cymreig datganoledig hynny, rwy’n ystyried y byddent yn ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

<u>Rhan 2: Cofrestru pleidleiswyr</u>

15. **Cymal 30 – Cysylltiad lleol a datganiadau o wasanaeth yn peidio â chael effaith.** Mae’r cymal hwn yn diwygio adran 7C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (DCB 1983). Effaith hyn yw, pan fo’r swyddog

cofrestru'n penderfynu nad yw person yn gallu gwneud datganiad mwyach, neu nad yw'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau cymwys o breswylfa dybiannol, a bo'r cais yn dibynnu ar ddatganiad o gysylltiad lleol, y bydd y cofrestriad yn cael ei derfynu.

16. Gwneir y penderfyniad hwn yn unol â rheoliadau a wneir gan yr awdurdod priodol, sydd at ddibenion gwneud rheoliadau mewn perthynas â chofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru, yn syrthio ar Weinidogion Cymru. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath a wneir yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Pan fo'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth o ran cynnal cofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru, maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Bydd y lefel hon o waith craffu gan y Senedd yn helpu i sicrhau bod y rheoliadau'n diogelu buddiannau datganoledig.

17. **Cymal 31 Hynafedd swyddogion cofrestru etholiadol.** Mae cymal 31 yn diwygio adran 8 o DCB 1983 i'w gwneud yn ofynnol bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol a benodir gan gynghorau yng Nghymru a Lloegr yn "uwch-swyddogion" o'r cynghorau perthnasol, gan sicrhau bod swyddogion a benodir i'r swyddi hyn yn gweithio ar y lefel uwch sy'n ofynnol i'w cyflawni.

18. Mae hyn yn addasu pŵer yr awdurdod lleol i benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol. Felly, rydym o'r farn bod y newid hwn yn effeithio ar faterion datganoledig drwy iddo addasu swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n awdurdodau Cymreig datganoledig, a thrwy hynny, mae'n sbarduno RhS29.

19. **Cymal 32 Cofrestru dienw.** Mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer diwygiadau i adran 9(4) ac adran 9C o DCB 1983. Mae'r cymal yn dileu'r gofyniad yn adran 9(4) o DCB 1983 am i'r Swyddog Canlyniadau ddyrannu rhifau etholiadol yn y fath fodd fel ei fod yn sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, ym mhob rhan neilltuol o gofrestr fod y rhifau'n rhedeg yn olynol. Nid yw hyn ond yn gymwys pan fo'r Swyddog Canlyniadau'n dyrannu rhif ar gyfer person â chofnod dienw. Mae hefyd yn diwygio adran 9C o DCB 1983 i estyn y cyfnod o amser y mae cofnod dienw yn para amdano, o flwyddyn i dair blynedd.

20. Bwriad polisi'r cymal hwn yw symleiddio'r broses a lleihau dryswch ar gyfer etholwyr dienw drwy ganiatáu iddynt gadw'r un rhif etholiadol drwy gydol eu cofrestriad. Mae'r cymal hwn yn gymwys mewn perthynas â chofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru ac, i'r graddau y bo'n gymwys i'r cofrestrau hynny, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae'n sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

21. **Cymal 33 Ceisiadau cyn etholiad i gofrestru.** Mae'r cymal yn diwygio adran 13B o DCB 1983 drwy ychwanegu is-adran newydd 13B(3ZC).

Mae'r is-adran newydd hon yn golygu bod swyddogion cofrestru'n cael eu hesgusodi rhag dyroddi hysbysiad am addasiad i'r gofrestr etholwyr, pan fo cais wedi ei wneud ar ôl 5pm ar y 12$^{fed}$ diwrnod cyn diwrnod y pôl. Felly, tra bo modd gwneud ceisiadau i gofrestru ar ôl yr amser hwn, ni fydd modd i berson sy'n gwneud cais ar ôl y dyddiad cau hwn bleidleisio yn yr etholiad hwnnw.

22. Mae'r cymal hefyd yn mewnosod adran newydd 13BAA yn DCB 1983 sy'n rhoi i'r awdurdod perthnasol bŵer i wneud rheoliadau i newid y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru cyn etholiad. Byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau hyn mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. I'r graddau y bo'r cymal hwn yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau Cymreig datganoledig, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

23. **Cymal 36 Rheoliadau o ran cofrestru etc.: gwybodaeth i gynorthwyo swyddogion cofrestru.** Mae'r cymal hwn yn gwneud diwygiadau i Atodlen 2 i DCB 1983, sy'n nodi'r materion y gellir eu cynnwys mewn rheoliadau sy'n ymdrin â chofrestru. Mae'r cymal yn ehangu'r pwerau gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol drwy egluro y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyrchu a chopïo cofnodion, nid dim ond eu harchwilio. Mae hefyd yn ehangu'r mathau o wybodaeth y gellir eu datgelu i gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r cymal hefyd yn symleiddio darpariaethau sy'n ymwneud â chanfasiad fel y bydd modd cymryd yr un camau ni waeth pa fath o etholiad sydd o dan sylw, gyda Gweinidogion Cymru'n gallu cymhwyso'r pwerau diwygiedig hyn i gofrestriadau llywodraeth leol yng Nghymru.

24. Bydd y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y cymal hwn yn newid y materion y byddai modd eu cynnwys mewn rheoliadau cofrestru a wneir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag etholiadau datganoledig, a thrwy hynny byddant yn addasu swyddogaeth weithredol Gweinidogion Cymru, ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

25. **Cymal 37 Cofrestr olygedig: etholwyr i optio i mewn.** Cafodd Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026 eu cymeradwyo yn y Senedd ar 10 Chwefror, ond nid ydynt mewn grym eto. Pan fyddant yn dod i rym ar 1 Hydref, bydd y Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r gofynion yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a osodir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i lunio cofrestrau golygedig o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yng Nghymru neu gyflenwi cofrestrau o'r fath neu ran ohonynt i unrhyw berson ar ôl talu ffi. Hyd nes y daw'r Rheoliadau hyn i

rym, mae cymal 37 o'r Bil yn gofyn am gydsyniad i'r graddau y byddai'n effeithio ar gofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru.

Rhan 3 Cynnal etholiadau etc.

26. **Cymal 38 Darpariaeth o gynhorthwy gan swyddogion awdurdodau lleol i swyddogion canlyniadau.** Mae'r cymal hwn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi eu staff ar gael i'w defnyddio gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer unrhyw un o etholaethau seneddol y DU sy'n dod yn llwyr neu'n rhannol o fewn eu hardal. Tra bo'r diwygiad hwn yn ymwneud ag etholiadau cadwedig, mae angen cydsyniad y Senedd gan fod y ddarpariaeth yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru (awdurdodau Cymreig datganoledig) mewn perthynas ag etholiadau Senedd y DU, a gallai'r ddyletswydd gael effaith berthnasol ar waith gweinyddol awdurdodau lleol yng Nghymru.

27. **Cymal 48 Pleidleisio absennol ac Atodlen 3.** Mae cymal 48 yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaeth o ran pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy.

28. Mae **Atodlen 3** yn gwneud diwygiadau helaeth i'r fframwaith pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (DCB 2000), gyda newidiadau cysylltiedig i DCB 1983 a DCB 1985. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau'n newid y ffordd y mae pleidleisio absennol yn gweithio ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y newidiadau sy'n gymwys i etholiadau datganoledig. Mae hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r darpariaethau, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â'r Alban neu Ogledd Iwerddon yn unig.

29. Mae **paragraffau 1–10, 12, rhannau o 18–22, a rhannau o 23** yn diwygio trefniadau pleidleisio absennol mewn ffyrdd sy'n uniongyrchol gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n dod yn llwyr o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

30. Mae **paragraff 1** yn cyflwyno'r diwygiadau a wneir gan Atodlen 3.

31. Mae **paragraff 2** yn diweddaru diffiniadau a deongliadau, gan gynnwys cydnabod etholwyr a fydd wedi eu cofrestru pan fydd y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu cais i gofrestru yn dod i ben.

32. Mae **paragraff 3** yn ailddatgan y pwerau gwneud rheoliadau o fewn Atodlen 4 i DCB 2000, gan ddyrannu i Weinidogion Cymru y cyfrifoldeb dros wneud rheoliadau sy'n effeithio ar etholiadau lleol Cymru, a

chadarnhau bod rheoliadau o’r fath i’w gwneud o dan weithdrefn gymeradwyo’r Senedd.

33. Mae **paragraff 4** yn ailwampio’r rheolau pleidleisio drwy’r post a phleidleisio drwy ddirprwy hirdymor, gan gyflwyno “cyfnodau hwyaf a ganiateir” (“maximum permitted periods”) newydd a’i gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddiweddaru cofnodion pan fydd etholwyr yn newid eu dulliau pleidleisio.

34. Mae **paragraff 5** yn gwneud darpariaethau ar gyfer trefniadau pleidlais drwy’r post amgen ar gyfer etholiadau penodol. Mae **paragraff 10** yn darparu bod modd i ddirprwy a chanddo drefniant pleidleisio drwy’r post drwy ddirprwy wneud cais am drefniadau amgen, yn lle pleidleisio drwy’r post fel dirprwy, mewn etholiadau penodol. Mae’r trefniadau amgen hyn yn cynnwys ceisiadau am i bapurau pleidleisio gael eu hanfon i gyfeiriadau amgen, am iddo allu pleidleisio’n bersonol mewn etholiad penodol, ac am iddo allu parhau i bleidleisio drwy’r post pan fo hawlogaeth yn dod i ben yn agos at ddiwrnod y pôl.

35. Mae **paragraffau 6-9** yn diweddaru mecanweithiau cynnal rhestrau pleidleiswyr absennol, gan gynnwys gwaharddiadau, dyletswyddau cadw cofnodion, a chanlyniadau caniatáu ceisiadau newydd.

36. Mae **paragraff 12** yn mewnosod pŵer newydd ar gyfer rheoliadau i bennu amgylchiadau pryd y mae rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrthod neu ddiystyru ceisiadau.

37. Mae **paragraffau 18-22** yn gwneud diwygiadau i DCB 1983, yn ymwneud â throseddau. Mae’r rhain yn cynnwys diwygiadau i’r darpariaethau yn ymwneud â’r drosedd o ddarparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â cheisiadau pleidleisio absennol, ac estyn y diffiniad o’r drosedd i gynnwys unrhyw amgylchiad pan fo personau’n gwneud datganiad ffug mewn perthynas â chais a wneir o dan Atodlen 4 i DCB 2000, gan gynnwys datganiadau ffug mewn perthynas â chais am i berson gael ei ddileu o restr pleidleisio drwy’r post neu restr pleidleisio drwy ddirprwy, neu mewn cais i newid o bleidleisio drwy’r post i bleidleisio’n bersonol mewn etholiad penodol. Mae hyn yn gyfystyr â newid sylweddol i’r gyfundrefn bresennol.

38. Mae **paragraff 23** yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio Atodlen 2 i DCB 1983 sy’n nodi’r hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau cofrestru, gan gynnwys rheoliadau cofrestru sy’n gymwys mewn cysylltiad ag etholiadau llywodraeth leol Cymreig.

39. Mae’r darpariaethau pleidleisio absennol hyn yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, y gallai’r Senedd ddeddfu ar eu cyfer ei hun, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

40. **Cymal 52 Effaith marwolaeth y Sofran ar etholiadau a refferenda penodol ac Atodlen 4.** Mae cymal 52 yn rhoi effaith i Atodlen 4.

41. Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith marwolaeth y Sofran ar etholiadau a refferenda penodol. Mae'r pwerau a nodir yn yr Atodlen hon i symud dyddiad y pôl ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y DU yn gymwys i bolau eraill sy'n cael eu cyfuno ag etholiad cyffredinol Senedd y DU. Byddai hyn yn cynnwys achosion pan fo etholiad o'r fath yn cael ei gyfuno ag is-etholiad llywodraeth leol.

42. Mae paragraff 5 yn effeithio ar etholiadau datganoledig yng Nghymru i'r graddau y byddai'n gymwys i etholiad eithriadol i'r Senedd neu i is-etholiad llywodraeth leol pan fo'r polau hynny'n cael eu cyfuno ag etholiad comisiynydd yr heddlu a throseddu. Ar gyfer y polau hyn, mae'r paragraff yn rhoi pŵer newydd i un o Weinidogion y Goron drwy reoliadau i bennu diwrnod pôl amgen sydd saith niwrnod yn gynharach neu'n hwyrach na dyddiad y pôl gohiriedig. Ni all rheoliadau ond gael eu gwneud ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol ac, yn yr amgylchiadau penodol hyn, drwy ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

43. Felly, ystyrir bod y rhain yn ddarpariaethau mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac y gallent newid y modd y byddai etholiad a fyddai fel arall yn etholiad datganoledig yn cael ei gynnal. Nodir hefyd y gallai'r Senedd ddeddfu i symud yr etholiadau hyn. Gan ei fod yn gyson â'r dull a ddefnyddir o ran cymalau eraill, mae'r gofyniad i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn gyfystyr â rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol, er ei fod yn gymwys i raddau cyfyngedig iawn.

Rhan 4 – Ymgyrchoedd a gwariant gwleidyddol

44. **Cymal 55 ac Atodlen 6 Caniatâd i dalu'n hwyr a hawliadau treuliau y mae anghydfod yn eu cylch.** Rhaid i anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu ddod i law o fewn 30 o ddiwrnodau i'r etholiad a rhaid gwneud taliadau o fewn 60 o ddiwrnodau. Ar gyfer anfonebau sy'n dod i law neu'n cael eu talu ar ôl y terfynau amser hyn, rhaid i'r person perthnasol sy'n gyfrifol gael "caniatâd i dalu" drwy wneud cais i'r llys perthnasol i gael dyfarniad llys. Mae'r darpariaethau hyn yn cyflwyno diwygiadau i wneud newidiadau i'r gyfundrefn caniatâd i dalu, drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol wneud cais i'r Comisiwn Etholiadol am ganiatâd i dalu, yn hytrach na'r llys perthnasol.

45. Mae **paragraff 2 o Atodlen 6** yn gwneud diwygiadau i'r gweithdrefnau caniatâd i dalu ar gyfer hawliadau hwyr a hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch gan ymgeiswyr ac asiantau etholiad mewn etholiadau perthnasol

o dan DCB 1983 sy’n peri bod rhaid i ymgeiswyr ac asiantau etholiad wneud cais i’r Comisiwn Etholiadol am ganiatâd i dalu. Pan fo caniatâd i dalu wedi ei roi, rhaid i ymgeiswyr neu asiantau gyflwyno ffurflen sy’n nodi’r symiau a dalwyd a chopi o hysbysiad cadarnhau’r Comisiwn Etholiadol i’r swyddog perthnasol.

46. Mae **paragraff 3** yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (DPGER) ar gyfer gweithdrefnau caniatâd i dalu ar gyfer hawliadau hwyr a hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch sy’n ymwneud â gwariant ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn ystod cyfnodau ymgyrchu perthnasol, gan gynnwys y cyfnod ymgyrchu perthnasol ar gyfer etholiadau i’r Senedd a gynhelir ar eu pennau eu hunain, sy’n peri bod rhaid i’r personau perthnasol wneud cais i’r Comisiwn Etholiadol am ganiatâd i dalu. Pan fo caniatâd i dalu wedi ei roi, rhaid i drysorydd y blaid gyflwyno ffurflen i’r Comisiwn Etholiadol sy’n nodi’r taliadau a wnaed, gyda chopi o hysbysiad y Comisiwn Etholiadol yn cadarnhau ei fod yn cymeradwyo caniatâd i dalu.

47. Mae **paragraff 4** yn gwneud diwygiadau i DPGER ar gyfer gweithdrefnau caniatâd i dalu ar gyfer hawliadau hwyr a hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch sy’n ymwneud â gwariant a reolir yr eir iddo gan drydydd partïon cydnabyddedig yn ystod cyfnodau rheoleiddiedig, gan gynnwys y cyfnod rheoleiddiedig mewn perthynas ag etholiadau’r Senedd, sy’n peri bod rhaid i’r personau perthnasol wneud cais i’r Comisiwn Etholiadol am ganiatâd i dalu. Pan fo caniatâd i dalu wedi ei roi, rhaid i’r person cyfrifol gyflwyno i’r Comisiwn Etholiadol ffurflen sy’n nodi’r taliadau a wnaed, gyda chopi o hysbysiad y Comisiwn Etholiadol yn cadarnhau ei gymeradwyaeth.

48. Mae **paragraff 5** yn gwneud diwygiadau i DPGER ar gyfer gweithdrefnau caniatâd i dalu ar gyfer hawliadau hwyr a hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch sy’n ymwneud â threuliau ymgyrch refferendwm cyfranogwyr a ganiateir yn ystod cyfnod refferendwm, gan gynnwys y cyfnod refferendwm ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a gynhelir ledled Cymru, sy’n peri bod rhaid i’r personau perthnasol wneud cais i’r Comisiwn Etholiadol am ganiatâd i dalu. Pan fo caniatâd i dalu wedi ei roi gan y Comisiwn Etholiadol, rhaid i’r person cyfrifol gyflwyno i’r Comisiwn Etholiadol ffurflen sy’n nodi’r taliadau a wnaed, gyda chopi o hysbysiad y Comisiwn Etholiadol yn cadarnhau ei gymeradwyaeth.

49. Mae’r rhain yn gwneud darpariaeth o ran etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru ac maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd.

50. **Cymal 56 ac Atodlen 7 Danfon ffurflenni yn uniongyrchol i’r Comisiwn Etholiadol a’u harchwilio.** Mae **paragraff 2 o Atodlen 7** yn nodi diwygiadau i’r broses o ddanfon ffurflenni a datganiadau penodol o

dan DCB 1983 i ddarparu ar gyfer danfon y ffurflenni hynny yn uniongyrchol i'r Comisiwn Etholiadol hefyd.

51. Mae **paragraff 2(2)** yn diwygio adran 81(10A) o DCB 1983 i newid pŵer gwneud rheoliadau y Comisiwn Etholiadol i ragnodi ffurf ffurflen treuliau etholiad. Ar hyn o bryd, mae'r pŵer yn darparu y "caniateir" ("may") defnyddio'r ffurf a ragnodir. Gyda'r diwygiad hwn, caiff y Comisiwn Etholiadol ddewis rhagnodi ffurf y caniateir ei defnyddio, neu ffurf y mae rhaid ei defnyddio.

52. Mae **paragraff 2(3)** yn rhoi adran 87A newydd yn lle'r adrannau 87A ac 87B presennol, sy'n creu gofyniad bod rhaid dychwelyd ffurflenni neu ddogfennau y mae'n ofynnol eu danfon i'r swyddog canlyniadau, o dan adrannau 75, 75A, 81, neu 82, i'r Comisiwn Etholiadol hefyd.

53. Bydd y diwygiadau hyn yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac felly maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

54. Mae **paragraff 2(5)** yn mewnosod is-adrannau newydd (4), (5) a (6) yn adran 89, sy'n nodi sut y dylai'r Comisiwn Etholiadol ymdrin ag unrhyw ffurflenni neu unrhyw ddogfennau sy'n mynd gyda hwy a gyflenwir. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso'r un gofynion a dyletswyddau sy'n gymwys ar hyn o bryd i'r swyddog priodol o dan adran 89 o DCB 1983 o ran archwilio ffurflenni a datganiadau, yn ogystal â chymhwyso amodau pellach sy'n gymwys ar hyn o bryd i'r Comisiwn Etholiadol mewn cysylltiad ag archwilio cofrestrau. Mae hyn yn diwygio darpariaeth yn DCB 1983 sy'n gysylltiedig â threuliau etholiad trydydd parti a/neu ymgeisydd mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac felly bydd angen cydsyniad ar ei gyfer hefyd.

55. **Cymal 58(10) ac Atodlen 8 Asesiadau risg ar gyfer rhoddion i bleidiau cofrestredig etc.** Mae cymal 58(10) yn cyflwyno **Atodlen 8** sy'n diwygio DPGER i gyflwyno dyletswydd i asesu risg rhoddion sy'n fwy nag £11,180, ac i adrodd am roddion o'r fath. Ni ellir derbyn rhoddion nad ydynt yn destun asesiad risg, ac mae'r darpariaethau sy'n bod o fewn DPGER o ran fforffedu a throseddau yn gymwys i roddion nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau ar yr asesiadau risg sydd i'w cynnal. Bwriedir i'r darpariaethau hyn wella tryloywder ac atebolrwydd pan fo rhoddion yn cael eu gwrthod oherwydd pryderon o ran cydymffurfedd.

56. Y rhoddion a gwmpesir gan y diwygiadau hyn yw:
- rhoddion i unigolion a chymdeithasau aelodau (paragraffau 1 i 6),
- benthyciadau i bleidiau cofrestredig, a thrafodiadau eraill dan gyfyngiadau gyda hwy (paragraffau 7 i 17),

- benthyciadau i unigolion a chymdeithasau aelodau, a thrafodiadau eraill dan gyfyngiadau gyda hwy (paragraffau 18 i 27),
- rhoddion i drydydd partïon cydnabyddedig (paragraffau 28 i 36),
- rhoddion i gyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda (paragraffau 37 i 42),
- rhoddion i ymgeiswyr mewn etholiadau (paragraffau 43 i 49),
- rhoddion i ymgyrchwyr achrededig mewn deisebau adalw (paragraffau 50 i 60), a
- rhoddion i ymgeiswyr mewn etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon (paragraffau 61 i 65).

57. I'r graddau y bo'r darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â rhoddion a wneir i drydydd partïon mewn etholiadau i'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (**paragraffau 28 i 36**), rhoddion a wneir i gyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda datganoledig perthnasol (**paragraffau 37 i 42**) a rhoddion a wneir i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (**paragraffau 43 i 49**), maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

58. **Cymal 59 Rhoddwyr a ganiateir i beidio â chynnwys unigolion o dan 16.** Mae'r cymal yn diwygio'r diffiniad o "rhoddwr a ganiateir" ("permissible donor") yn adran 54(2) o DPGER. Effaith y cymal hwn fyddai atal personau sy'n dod i oed sydd wedi eu cynnwys mewn cofrestr etholiadol rhag gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Mae diffiniad y term "rhoddwr a ganiateir" yn gymwys i gyfundrefnau rhoddion eraill o fewn DPGER, gan gynnwys rhoddion a wneir i drydydd partïon cydnabyddedig mewn cysylltiad ag ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, rhoddion a wneir i gyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda datganoledig a rhoddion a wneir i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Felly, bydd y diwygiad hefyd yn cael yr effaith o atal personau sy'n dod i oed rhag gwneud rhoddion o dan unrhyw un neu ragor o'r cyfundrefnau rhoddion hynny. I'r graddau y bydd y diwygiad hwn yn gymwys i'r cyfundrefnau rhoddion datganoledig hynny, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

59. **Cymal 60 Rhoddion gan gwmnïau a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig etc.** Mae'r cymal hwn yn diwygio'r diffiniad o roddwr a ganiateir yn adran 54(2) o DPGER, gyda diffiniadau newydd ar gyfer cwmnïau a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig yn cael eu mewnosod yn lle'r diffiniadau presennol. Yn y ddau achos, mae'r diffiniadau newydd yn cyflwyno amod cymhwysol fod rhaid i'r cwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig hefyd yn y dyfodol fodloni'r "prawf rheolaeth sylweddol" ("significant control test") a nodir yn adran newydd 54E sydd

i'w mewnosod yn DPGER. Yn ogystal â bodloni'r gofyniad ychwanegol hwn, diwygir adran 54 ymhellach drwy fewnosod is-adrannau newydd (3ZA) a (3ZB).

60. Yn unol ag is-adran newydd (3ZA), i gael eu hystyried yn rhoddwr a ganiateir, rhaid bod gan gwmnïau a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig ddigon o gyllid ar gael yn weddill (wedi ei gyfrifo yn unol ag adran newydd 54H (sydd hefyd i'w mewnosod yn DPGER gan y cymal hwn)) i dalu swm y rhodd, ar yr adeg y daw'r rhodd i law. Mae'r is-adran newydd hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod wedi bodloni'r rhwymedigaeth cyflwyno cyfrifon berthnasol yn adran newydd 54I i gael ei ystyried neu ei hystyried yn rhoddwr a ganiateir.

61. Gan fod y newid i'r diffiniad o roddwr a ganiateir yn adran 54(2) o DPGER yn effeithio ar y diwygiad hwn, bydd hefyd yn gymwys i roddion a wneir i drydydd partïon cydnabyddedig mewn cysylltiad ag ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, rhoddion a wneir i gyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda datganoledig a rhoddion a wneir i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Felly, bydd y diwygiad hefyd yn cael yr effaith o reoleiddio pa gwmnïau a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig all wneud rhoddion o dan y cyfundrefnau hynny. O'r herwydd, i'r graddau y bo'r diwygiad hwn yn gymwys mewn perthynas â'r cyfundrefnau rhoddion datganoledig hynny, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

62. **Cymal 61 Fforffedu rhoddion penodol i bleidiau cofrestredig etc.** Mae'r cymal hwn yn diwygio adrannau 58 a 59 o DPGER ac Atodlen 4 i Ddeddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 i egluro'r rheolau ar fforffedu rhoddion gan unigolion nad ydynt wedi eu cofrestru mewn cofrestr etholiadol ar yr adeg y gwneir y rhodd.

63. Tra bo'r diwygiad yn gymwys i'r ddarpariaeth a wneir mewn cysylltiad â rhoddion a wneir i bleidiau gwleidyddol cofrestredig, mae'r darpariaethau hynny hefyd yn gymwys mewn cysylltiad â rhoddion a wneir i drydydd partïon cydnabyddedig mewn cysylltiad ag ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, rhoddion a wneir i gyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda datganoledig a rhoddion a wneir i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. O'r herwydd, i'r graddau y bo'r diwygiad hwn yn gymwys mewn perthynas â'r cyfundrefnau rhoddion datganoledig hynny, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bydd angen cydsyniad y Senedd.

64. **Cymal 63 Deunydd electronig a hyrwyddir gan drydydd partïon.** Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 44 o Ddeddf Etholiadau 2022 sy'n

ymwneud â’r amodau pan fo angen argraffnod digidol ar gyfer deunydd electronig nas talwyd i’w gyhoeddi fel hysbyseb gan naill ai’r hyrwyddwr neu’r person y cyhoeddir y deunydd ar ei ran. Mae’r diwygiad hwn yn ychwanegu at y rhestr o endidau y mae rhaid iddynt gynnwys argraffnod digidol ar ddeunydd o’r fath i gynnwys unrhyw berson sy’n ymgyrchydd trydydd parti ond nad yw’n cael ei gydnabod (adran 88(5) DPGER), ac eithrio unigolion. Diben y diwygiad hwn yw gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy sicrhau bod modd i bleidleiswyr adnabod pwy sy’n gyfrifol am gynnwys etholiadol digidol.

65. **Cymal 64 Canllawiau’r Comisiwn Etholiadol yn ymwneud â deunydd electronig: mân ddiwygiad.** Mae’r cymal hwn yn diwygio adran 54 o Ddeddf Etholiadau 2022 i newid y weithdrefn y mae rhaid i’r Comisiwn Etholiadol ei dilyn pan fydd yn diweddaru ei ganllawiau ynglŷn ag argraffnodau digidol pan na fydd sylwedd y canllawiau hynny wedi newid. Pan fo mân newid o’r fath yn cael ei wneud, ni fydd angen i’r Comisiwn Etholiadol gael cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol mwyach ac ni fydd angen gosod y canllawiau diwygiedig gerbron Senedd y DU. Yn hytrach, caiff y Comisiwn yn syml gyhoeddi’r canllawiau diwygiedig ei hun, gan ddod â hwy i rym ar ddyddiad o’i ddewis. Diben y diwygiad hwn yw symleiddio diweddariadau i ganllawiau ynglŷn ag argraffnodau digidol nad ydynt yn ddiweddariadau o sylwedd, gan gynnal tryloywder o ran ymgyrchu etholiadol digidol ar yr un pryd.

66. Yn ein barn ni, mae’r cymalau hyn o’u cymryd gyda’i gilydd mewn cysylltiad ag etholiadau datganoledig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd bwriedir iddynt reoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod darllenwyr a’r rheini y mae’r deunydd etholiadol hwnnw’n dod i’w llaw yn deall pwy sydd wedi cyhoeddi’r deunydd. Mae hyn yn gyson â’n hasesiad o gymhwysedd mewn perthynas â Rhan 6 o Ddeddf Etholiadau 2022 pan gyflwynwyd y cymalau sy’n cael eu diwygio.

<u>Rhan 5 Y Comisiwn Etholiadol a Diwygiadau Gorfodi</u>

67. **Cymal 65 Dad-droseddoli gofynion penodol.** Mae’r cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 10 sy’n dad-droseddoli troseddau yn ymwneud â gofynion gweinyddol o dan DPGER ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol, gan wneud y gofynion a’r cyfyngiadau y mae’r troseddau hynny’n ymwneud â hwy yn orfodadwy dim ond gan y Comisiwn Etholiadol drwy ei bwerau ymchwilio a’i bwerau i osod sancsiynau sifil.

68. Mae **Atodlen 10** yn ymwneud â dad-droseddoli troseddau gweinyddol penodol. Mae **paragraffau 5 a 6** yn gwneud diwygiadau i DPGER i ddad-droseddoli troseddau penodol mewn perthynas â phleidiau cofrestredig, sef methu â danfon ffurflenni gwariant ymgyrchu, neu fethu â chydymffurfio â gofynion y ffurflenni hynny, a methu â sicrhau bod

datganiad yn mynd gyda ffurflen o’r fath pan fo’r trysorydd yn torri’r gofyniad. Byddai modd cynnwys darpariaeth gyfatebol mewn Deddf gan y Senedd mewn perthynas â ffurflenni gan bleidiau cofrestredig mewn etholiadau i’r Senedd a gynhelir ar eu pennau eu hunain. Felly, i’r graddau y bydd y diwygiad yn gymwys i etholiadau’r Senedd a gynhelir ar eu pennau eu hunain, mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bydd angen cydsyniad.

69. Mae **paragraff 10** yn gwneud diwygiadau i DPGER i hepgor troseddau penodol mewn perthynas â thrydydd partïon cydnabyddedig. Mae’r diwygiad sy’n hepgor trosedd o fethu â chyflwyno ffurflenni i’r Comisiwn o dan adran 98(4)(a), (b) ac (c) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad.

70. Mewn modd sy’n debyg i baragraffau 5 a 6, bydd paragraffau 11 a 12 (hepgor trosedd ynglŷn â’r datganiad gan berson cyfrifol o ran ffurflen) yn sbarduno’r broses cydsyniad deddfwriaethol oherwydd bydd y diwygiad yn gymwys i etholiadau’r Senedd a gynhelir ar eu pennau eu hunain, ac mae’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sy’n golygu y byddai modd cynnwys darpariaethau cyfatebol mewn Deddf a basir gan y Senedd.

71. Mae paragraffau 13 a 14 yn gwneud diwygiadau i Ran 7 o DPGER i hepgor troseddau penodol mewn perthynas â chyfranogwyr mewn refferendwm. Caniateir cynnwys darpariaethau cyfatebol mewn Deddf gan y Senedd ynglŷn â refferenda a lywodraethir gan adran 101 o DPGER a/neu sy’n cynnwys cyfeiriadau sy’n ymwneud yn benodol â Chymru. Felly, pan fo’r diwygiad yn ymwneud â refferenda ar faterion datganoledig, mae’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu byddai’n cael effaith berthnasol ar gyflawni neu weithredu polisi datganoledig a deddfwriaeth ddatganoledig.

72. Bydd angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hefyd ar gyfer y diwygiadau canlyniadol perthnasol ym mharagraff 16(6) sy’n dileu’r cosbau troseddol ar gyfer y troseddau gweinyddol perthnasol, sy’n cael eu diddymu, o restr sy’n ymwneud ag etholiadau datganoledig ac sy’n gymwys iddynt.

73. **Cymal 66 ac Atodlen 11 Estyn swyddogaethau gorfodi’r Comisiwn Etholiadol.** Ar hyn o bryd, gall y Comisiwn Etholiadol orfodi sancsiynau sifil am fethu â chydymffurfio â rheolau cyllid etholiadol penodol o fewn DPGER. Effaith cymal 66 yw y bydd troseddau a nodir, sy’n ‘droseddau’ (‘criminal offences’) ar hyn o bryd oherwydd methiant ymgeiswyr a thrydydd partïon lleol i gydymffurfio â’r rheolau cyllid etholiadol o dan DCB 1983 neu rai troseddau o ran argraffnodau digidol o dan Ddeddf Etholiadau 2022, bellach yn dod yn ‘droseddau rhagnodedig’ (‘prescribed

offences’). Mae hyn yn golygu bod modd atgyfeirio’r troseddau a nodir at yr heddlu ar gyfer ymchwiliad troseddol neu ymdrin â hwy a’u gorfodi drwy sancsiynau sifil gan y Comisiwn Etholiadol. Mae’r cymal yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i DPGER a deddfwriaeth etholiadol arall i alluogi hyn ac mae hefyd yn estyn cylch gwaith y Comisiwn Etholiadol a’i bwerau i osod sancsiynau sifil. Mae’r diwygiadau yn y cymal hwn yn gymwys i droseddau y gellir eu cyflawni yn ystod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac, i’r graddau hynny, mae’r cymal hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

74. Mae’r cymal yn cyflwyno **Atodlen 11**, sy’n rhoi mwy o fanylion am bwerau gorfodi newydd y Comisiwn. Nid yw’r newidiadau hyn ond yn gymwys i droseddau a gyflawnir ar ôl i’r cymal ddod yn gyfraith.

75. Mae **paragraffau 2-4 o Atodlen 11** yn diwygio swyddogaethau a dyletswyddau gorfodi’r Comisiwn yn adran 145 o DPGER i adlewyrchu’r newidiadau a wneir i Atodlen 19C i DPGER gan gymal 66 o’r Bil ac Atodlen 11 iddo. Mae’r cymal hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i’r graddau y bo’n gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru drwy’r cyfeiriad at droseddau o fewn DCB 1983 a thrwy gymhwyso’r troseddau hynny.

76. Mae **paragraff 5** yn diwygio adran 148 o DPGER drwy egluro a diffinio gofynion ynglŷn â bwriad, caniatáu i ddeddfiadau eraill fod yn gymwys fel troseddau, diffinio deddfiadau a swyddogaethau gorfodi perthnasol, a phennu personau cymwys i estyn pwerau gorfodi ac ymchwilio’r Comisiwn Etholiadol i gynnwys y troseddau hynny yn DCB 1983. Bydd y cymal yn cael effaith ar etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a bydd yn gymwys i ymgeiswyr, asiantau etholiad a thrydydd partïon yn ystod yr etholiadau hynny.

77. Mae **paragraff 6** yn mewnosod adran newydd 148A yn DPGER, gan nodi diffiniadau o ymgeisydd, etholiad ac asiant etholiad at ddibenion adran 145 i 148 o DPGER ac Atodlenni 19B a 19C iddi.

78. Mae **paragraff 7** yn diwygio adran 156(4A) o DPGER i gynnal y sefyllfa sy’n peri bod rheoliadau sy’n cynnwys darpariaeth o dan baragraffau 1, 5 a 10 o Atodlen 19C yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

79. Mae **paragraff 8** yn diwygio Atodlen 19B i DPGER i ehangu pwerau ymchwilio’r Comisiwn dros unigolion penodol ac i ganiatáu i’r Comisiwn Etholiadol ymchwilio i droseddau a ragnodir at ddibenion paragraffau 1, 5, 10 neu 15 o Atodlen 19C.

80. Byddai’r cymalau uchod (i’r graddau y bônt yn gymwys i etholiadau datganoledig a gynhelir ar eu pennau eu hunain) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

81. Mae **paragraff 9** yn diwygio Atodlen 19C i DPGER – Sancsiynau sifil y Comisiwn Etholiadol. Mae’r diwygiadau’n ehangu pwerau’r Comisiwn

Etholiadol o ran sancsiynau sifil fel y byddant yn gymwys nid yn unig i droseddau o dan DPGER ond hefyd i droseddau sy'n codi o dan DCB 1983. Mae hyn yn cynnwys ehangu gallu'r Comisiwn i osod cosbau ariannol penodedig, gofynion yn ôl disgresiwn, a hysbysiadau stop ac i dderbyn ymgymeriadau mewn cysylltiad â throseddau rhagnodedig a gyflawnir gan asiantau etholiad, gydag ymgeiswyr etholiadol perthnasol yn ysgwyddo atebolrwydd.

82. Mae addasiadau gweithdrefnol pellach yn sicrhau bod modd i'r fframwaith sancsiynau sifil weithredu'n effeithiol ar draws yr ystod ehangach hon o ddeddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys estyn y terfynau amser y caniateir cychwyn achos troseddol oddi mewn iddynt, diweddaru a mewnosod diffiniadau angenrheidiol, a galluogi canllawiau cysylltiedig a gorchmynion atodol i gofnodi'r categorïau ychwanegol o droseddau rhagnodedig.

83. Mae angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer paragraffau 9(2)(b)-(c), 9(3), 9(4)(b)-(c), a 9(5)-(11). Mae diwygiadau yn y cymal yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac i etholiadau'r Senedd ac maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

84. Mae **paragraff 13(2)** yn diwygio adran 86(7) o DCB 1983, sy'n ymwneud ag atebolrwyddau a gaiff eu hosgoi pan fo llys yn caniatáu esgus am beidio â chydymffurfio â gofynion, er mwyn cyfeirio hefyd at y troseddau perthnasol yn DPGER.

85. Mae **paragraff 13(3)** yn dileu dyletswydd a roddir ar y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i wneud ymholiadau ac i gychwyn erlyniadau pan fo wedi cael gwybodaeth yn ymwneud â throsedd etholiadol bosibl sy'n cael ei chyflawni o dan DCB 1983. Mae hyn yn egluro y dylai gwybodaeth sy'n ymwneud â throseddau posibl yn hytrach gael ei rhoi i'r heddlu neu'r Comisiwn Etholiadol gyda'r bwriad o ymchwilio i droseddau a amheuir. Mae'r cymal hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y bo'r cymal yn ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

86. Mae **paragraff 14** yn hepgor adran 50 sy'n ymwneud â gorfodi gan y Comisiwn ac adran 53(2) sy'n ymwneud â chyflenwi gwybodaeth i'r Comisiwn oherwydd bydd effaith y darpariaethau hynny yn hytrach yn cael eu cymhwyso gan ddiwygiadau mewn mannau eraill yn yr Atodlen.

87. Bydd y diwygiadau hyn yn cael effaith ar ymgeiswyr, asiantau etholiad ac ymgyrchwyr trydydd parti lleol mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a byddant yn gymwys iddynt, ac felly maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

88. **Cymal 67 Diddymu cosbau uchaf mewn cysylltiad â throseddau diannod.** Mae'r cymal hwn yn diwygio Atodlen 19C i DPGER drwy ddileu'r terfyn ar gosbau ariannol sy'n daladwy pan osodir cosb ariannol benodedig neu amrywiadwy mewn cysylltiad â throseddau penodol, h.y. pan fo troseddau'n droseddau diannod a roddir ar brawf gan lys ac y gellir

eu cosbi o gael euogfarn ddiannod drwy ddirwy, ni chaiff swm y gosb a osodir gan y Comisiwn Etholiadol fod yn fwy na’r gosb y gellir ei gosod gan y llys. Defnyddir is-ddeddfwriaeth i gynyddu’r ddirwy uchaf y caniateir i’r Comisiwn Etholiadol ei gosod. Nid oes i’r cymal hwn ddim effaith ôl-weithredol.

89. I’r graddau y bo cymal 67 yn berthnasol i droseddau sy’n gymwys o ran etholiadau’r Senedd, refferenda neu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a gynhelir ar eu pennau eu hunain (yn sgil diwygiadau eraill i’r Atodlen hon mewn mannau eraill yn y Bil), byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i allu gwneud darpariaethau cyfatebol i ddileu unrhyw gapiau ar gosbau ariannol cyfnod penodol mewn perthynas â throseddau rhagnodedig o’r fath. Felly, bydd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn.

90. **Cymal 68 Gorchmynion sancsiynau sifil: cyfuno darpariaeth gadwedig a datganoledig.** Mae’r cymal hwn yn rhoi i’r Ysgrifennydd Gwladol bŵer dirprwyedig i wneud gorchymyn atodol o ran etholiadau datganoledig. Gallai’r gorchymyn atodol fynd i’r afael â gorfodi troseddau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a throseddau perthnasol yn Rhannau 5 a 6 o DPGER ar gyfer etholiadau’r Senedd a gynhelir ar eu pennau eu hunain. Ni all yr Ysgrifennydd Gwladol ond ddefnyddio’r pŵer hwn gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru i’r graddau y bo’n ymwneud ag etholiadau yng Nghymru. Bwriedir i’r ddarpariaeth hon ganiatáu set unedig o newidiadau i’r Gorchymyn Sancsiynau Sifil, gan sicrhau cysondeb ac eglurder ar gyfer ymgyrchwyr, pleidiau a oruchwylir, sefydliadau, a’r Comisiwn Etholiadol pan fo’r bwriad polisi yn gyson. Dylid nodi, am fod Gweinidogion Cymru eisoes yn meddu ar y pŵer hwn, y gallant barhau i arfer y pŵer hwn os ydynt yn dymuno gwneud newidiadau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. Gallai’r Senedd gyflawni hyn drwy ei deddfwriaeth ei hun, gan wneud y ddarpariaeth hon o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol. Mae’r cymal yn gosod swyddogaeth ar Weinidogion Cymru am na all yr Ysgrifennydd Gwladol ond arfer y pŵer hwn gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae’r cymal hwn yn cael effaith berthnasol ar gyflawni neu weithredu polisi datganoledig, deddfwriaeth ddatganoledig a gwaith gweinyddol y Senedd a Gweinidogion Cymru. Felly, bydd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn.

91. **Cymal 69 Datgelu gwybodaeth gan y Comisiwn Etholiadol.** Mae’r cymal hwn yn darparu i’r Comisiwn Etholiadol y pŵer i ddatgelu gwybodaeth sydd wedi dod i’w law tra mae’n cyflawni ei swyddogaethau i reoleiddwyr eraill ac awdurdodau gorfodi eraill at ddiben eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau hwy. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ychwanegu neu ddileu rheoleiddwyr neu addasu eu henwau, fel y nodir yn yr Atodlen 19D newydd, drwy is-ddeddfwriaeth o dan y weithdrefn

gadarnhaol.

92. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y ddarpariaeth i'r graddau y bo'n gymwys i'r awdurdodau Cymreig datganoledig a restrir, sef Comisiynydd Safonau'r Senedd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ac Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig drwy gynorthwyo'r cyrff hynny i gyflawni eu swyddogaethau. Gan eu bod yn awdurdodau Cymreig datganoledig a chanddynt swyddogaethau datganoledig, mae o fewn cymhwysedd datganoledig a bydd angen cydsyniad y Senedd.

Aflonyddu a bygylu

93. **Cymal 70 Gelyniaeth tuag at swyddogion a'u staff.** Mae'r cymal hwn yn estyn sancsiynau troseddol gyda'r effaith o anghymhwyso unigolion yr effeithir arnynt rhag dal swydd etholedig. Ni ellir ond rhoi effaith iddynt drwy newidiadau i ddarpariaethau sy'n llywodraethu'r cyfundrefnau anghymhwyso i'r Senedd ac i awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly, mae'n ymwneud â mater anghymhwyso sydd wedi ei ddatganoli ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol.

94. **Cymal 73 Effaith gorchmynion anghymhwyso'r Alban.** Mae'r cymal hwn i bob pwrpas yn cydnabod gorchymyn anghymhwyso'r Alban ochr yn ochr â'r darpariaethau presennol o ran gorchmynion anghymhwyso yn Neddf Etholiadau 2022. Ei ddiben yw sicrhau bod y rheini sy'n ddarostyngedig i orchymyn anghymhwyso'r Alban wedi eu hanghymhwyso rhag dal swyddi etholedig ledled y DU. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol gan fod y gyfundrefn anghymhwyso y mae gan y Senedd gymhwysedd drosti wedi ei diwygio i roi effaith iddynt, gan gymhwyso'r anghymhwysiad i swyddi yr etholir iddynt mewn etholiadau datganoledig.

95. **Cymal 74 Effaith gorchmynion anghymhwyso: mân ddarpariaeth a darpariaeth ganlyniadol.** Mae'r cymal hwn yn gwneud diwygiadau i gymhwyso effaith anghymhwysiad yr Alban ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a DLIC i gymhwyso'r anghymhwysiad i aelodaeth o'r Senedd ac o awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly, mae'n rhoi sylw i faterion anghymhwyso sydd wedi eu datganoli, ac mae angen cydsyniad y Senedd.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

96. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi darparu Dadansoddiad Datganoli sy'n datgan bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 15, 30, 32, 33, 36, 38, 48 (ac Atodlen 3), 55 (ac Atodlen 6), 56 (ac Atodlen 7), 58 (ac Atodlen 8), 59, 61, 65 (ac Atodlen 10), 66 (ac Atodlen 11), 67, 68, 73.

97. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn ond, am y rhesymau a amlinellir uchod, rydym yn asesu bod angen cydsyniad hefyd ar gyfer cymalau 31, 52 (Atodlen 4), 60, 63, 64, 69, 70 a 74.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil Cynrychiolaeth y Bobl**

98. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod rhinwedd mewn rhoi llawer o'r darpariaethau ar gyfer etholiadau datganoledig ar waith drwy'r Bil gan eu bod yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru. O wneud hyn, bydd yn cryfhau'r polisïau hynny ac yn sicrhau cymaint o eglurder â phosibl i bleidleiswyr, ymgeiswyr a gweinyddwyr. Nodir sail resymegol fwy penodol isod o ran meysydd penodol yn y Bil.

99. Mae'r cymalau perthnasol y mae angen cydsyniad ar eu cyfer o ran estyn yr etholfraint i rai 16 a 17 oed yn ceisio gwella cyfranogiad democrataidd drwy ddarparu ar gyfer dyletswyddau i godi ymwybyddiaeth ac i ddarparu cynhorthwy i gofrestru.

100. Rydym yn cefnogi'r cymalau sy'n nodi gwelliannau i'r gyfundrefn cofrestru pleidleiswyr. Mae'n briodol deddfu er mwyn i ofynion gweithdrefnol mewn cysylltiad â newidiadau technegol gael eu cymhwyso'n gyson ac yn gydamserol ar draws etholiadau er symlrwydd ar gyfer swyddogion cofrestru ac etholwyr. Daw'r pwerau peilota cofrestru awtomeiddiedig yn sgil peilotau a gynhaliwyd yma yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cysondeb ac i leihau'r baich ar weinyddwyr a'r dryswch i bleidleiswyr cyhyd ag y bo modd yn nhermau ychwanegu pobl yn awtomatig at y cofrestrau amrywiol.

101. Mae hefyd yn hanfodol bod y gweithdrefnau o ran pleidleiswyr dienw mor gyson â phosibl i gynyddu hyder ac ymddiriedaeth mewn systemau etholiadol ar gyfer pleidleiswyr sy'n agored i niwed. Felly, mae'n briodol deddfu ar gyfer hyn drwy ddeddfwriaeth y DU.

102. Ni fyddem yn anghytuno â'r bwriadau y tu ôl i'r cymal sy'n ymwneud â darparu cynhorthwy gan swyddogion awdurdodau lleol i swyddogion canlyniadau, ac rydym yn nodi y caiff ei gymhwyso i etholiadau cadwedig. Felly, byddem yn argymell cydsyniad i'r graddau y bo'r cymal hwn yn cael effaith berthnasol ar awdurdodau lleol.

103. Mae'r Bil yn cyflwyno nifer o newidiadau o ran y system pleidleisio absennol. Mae'r rhain yn cynnwys symud y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post ymlaen i 14 diwrnod gwaith cyn y pôl. Mae hefyd yn caniatáu i gais am bleidlais drwy'r post gael ei dderbyn tra mae pleidleisiwr yn dal i fod yn y cyfnod gwrthwynebu ar ôl iddo gofrestru i

bleidleisio. Rydym yn cytuno y bydd y newidiadau hyn yn lleihau'r risg na fydd pleidleiswyr yn cael eu pleidleisiau drwy'r post mewn pryd i'w dychwelyd ac yn lleddfu'r pwysau ar dimau etholiadol.

104. Mae hefyd yn caniatáu i bleidleiswyr ganslo eu pleidlais drwy'r post a phleidleisio'n bersonol pan fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi ei fodloni nad yw ei bleidlais drwy'r post wedi cyrraedd mewn pryd ac na fydd yn cyrraedd mewn pryd. Bydd hyn yn rhoi i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yr hyblygrwydd i sicrhau nad yw pleidleiswyr yn colli eu hawl i bleidleisio yn ddiangen.

105. Mae'n cynnwys newidiadau i'r ffordd y caiff y ffenestr ailymgeisio am bleidleisiau drwy'r post ei chyfrifo, gan ganiatáu i bleidleiswyr sy'n ailymgeisio yn union cyn ffenestr ailymgeisio 31 Ionawr i ddal eu trefniant pleidlais drwy'r post am ychydig dros dair blynedd.

106. Mae'r Bil hefyd yn egluro nifer o faterion, fel pennu dyddiad cau penodol ar gyfer penderfynu ar bleidleisiau drwy'r post, egluro dileu trefniant pleidlais drwy'r post pleidleisiwr os bydd wedi ei ddileu o'r gofrestr, ac egluro bod cais am drefniant pleidlais drwy'r post newydd yn dileu trefniant presennol yn awtomatig.

107. Rydym yn ystyried bod y newidiadau hyn yn fuddiol i bleidleiswyr ac i'r gwaith o gynnal etholiadau'n effeithlon, ac felly rydym yn argymell bod cydsyniad yn cael ei roi ar gyfer y darpariaethau hyn.

108. Er nad ydynt yn debygol o gael eu cyfuno'n ymarferol, mae'r cymalau ynghylch effaith marwolaeth y Sofran ar etholiadau a refferenda penodol, yn darparu pwerau i symud etholiadau Cymreig datganoledig pan fyddant wedi eu cyfuno ag etholiadau perthnasol y DU. Mae pwerau i symud etholiadau eraill a gynhelir ar eu pennau eu hunain naill ai eisoes wedi eu nodi mewn deddfwriaeth neu byddant yn cael eu hystyried ymhellach yn y Seithfed Senedd. Mae Bil y DU yn darparu cyfrwng deddfwriaethol addas i ganiatáu i'r cyfuniad penodedig o bolau gael ei symud, os oes angen. Felly, yn absenoldeb cyfrwng deddfwriaethol addas yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r cymalau hyn.

109. Rydym yn croesawu'r cymalau sy'n ymwneud â chyllid gwleidyddol i'r graddau y bônt yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Senedd a'r ffaith y byddant yn dod â mwy o dryloywder i gynnal uniondeb ein hetholiadau. Yn ogystal, i ddrafftio darpariaethau o'r fath o fewn deddfwriaeth Cymru, byddai angen adnoddau sylweddol i'w dadansoddi a'u hymgorffori'n effeithiol yng nghyfraith Cymru, o ystyried y fframwaith cymhleth o ddeddfwriaeth yn y maes hwn a'r berthynas â swyddogaethau cadwedig yn unig.

110. Mae’r Bil yn cynnwys cymalau sy’n estyn y gyfundrefn argraffnodau digidol sydd ar waith ledled y DU fel y bydd yn ofynnol i ymgyrchwyr trydydd parti nad ydynt yn drydydd partïon cydnabyddedig neu’n unigolion i gynnwys argraffnod digidol ar eu deunydd electronig yn unol â’r gyfundrefn bresennol o ran argraffnodau digidol. Mae hyn yn cau bwlch a oedd yn caniatáu i ymgyrchwyr trydydd parti gyhoeddi ymgyrchoedd gwybodaeth etholiadol ar yr amod nad oedd yn bodloni’r trothwy.

111. Maent hefyd yn gwneud y Comisiwn Etholiadol yn brif orfodwr ar gyfer yr holl reolau ynglŷn ag argraffnodau, ar gyfer cyfryngau ffisegol a digidol. Rydym yn croesawu’r estyniad hwn i rôl y Comisiwn Etholiadol ac yn credu y bydd yn caniatáu i achosion o dorri’r rheolau ynglŷn ag argraffnodau gael eu hystyried yn well, gan ganiatáu ar yr un pryd i’r achosion mwyaf difrifol gael eu hatgyfeirio at yr heddlu i fod yn destun ymchwiliad troseddol.

112. Rydym yn cytuno mewn egwyddor i’r cymalau sy’n ymwneud ag argraffnodau digidol fod yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau’r Senedd ac felly byddem yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

113. O ran y cymalau sy’n ymwneud â’r Comisiwn Etholiadol a diwygiadau i’r gyfundrefn orfodi sy’n effeithio ar feysydd datganoledig, rydym yn cydnabod bod mantais o gael cysondeb ac felly rydym yn argymell cydsyniad. O gydsynio i’r cymalau hyn a chysoni dulliau o weithredu, yn awr a thrwy newidiadau yn y dyfodol i is-ddeddfwriaeth, bydd yn creu fframwaith etholiadol unedig ac yn atal anghysondebau o ran ymdrin â throseddau yn etholiadau’r DU ac mewn etholiadau datganoledig. Rydym yn cytuno y bydd un set o newidiadau i’r Gorchymyn Sancsiynau Sifil yn caniatáu i ymgeiswyr, pleidiau, ymgyrchwyr a gweinyddwyr weithredu o dan yr un gyfundrefn orfodi, gan leihau dryswch a baich gweinyddol. Byddai’n osgoi, er enghraifft, y cymhlethdodau o weinyddu gwahanol gapiau a dosbarthiadau o droseddau ar gyfer gwahanol etholiadau.

114. Bydd hefyd yn lleihau’r risg o anghysondebau rhwng offerynnau deddfwriaethol amrywiol o’u gwneud ar wahân. Bydd hyn yn helpu i gefnogi’r broses o’u rhoi ar waith ar yr un pryd, gan alluogi’r Comisiwn Etholiadol i gynnal pwerau gorfodi unffurf ar draws pob math o etholiad, yn enwedig pan fo troseddau’n rhychwantu cyd-destunau cadwedig a datganoledig. Bydd hyn yn sicrhau effeithlonrwydd a chysondeb gweithredol, yn ogystal ag eglurder, ar gyfer pob rhanddeiliad o dan sylw.

115. Fodd bynnag, bydd cydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil yn arwain at ddiwygiadau sy'n cymhwyso'r cymalau i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ac yn y Seithfed Senedd bydd angen ystyried deddfu drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn i’r darpariaethau a’r newidiadau a wneir fod yn gymwys i etholiadau'r Senedd hefyd.

116. Byddem yn cefnogi'n llwyr ac yn croesawu'n benodol y mesurau yn y Bil i fynd i'r afael ag aflonyddu a bygylu staff ac ymgeiswyr etholiadol. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn mynd gam ymhellach i sicrhau bod y rheini sy'n gweithio'n ddiflino i gynnal etholiadau ac yn sefyll i'w hethol yn cael eu diogelu'n well. Mae'r Senedd wedi deddfu i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, ond rydym yn nodi bod hwn yn faes lle y mae'r risg yn cynyddu a bod angen ei adolygu'n rheolaidd.

117. O ystyried amseriad cyflwyno'r Bil hwn, rydym o'r farn mai cydsynio i'r cymalau a bennwyd, i'r graddau y bônt yn effeithio ar faterion datganoledig, gael eu cynnwys yn y Bil y DU hwn fyddai er budd pennaf Cymru a'r rheini sy'n rhyngweithio â'r system etholiadol. Rydym eisoes wedi nodi ein bod yn cytuno â'r egwyddor sy'n sail i'r darpariaethau hyn ac o ystyried bod y Senedd wedi pasio Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 yn ddiweddar, ni fyddai modd cyflawni deddfwriaeth y Senedd fel arall o fewn cyfnod amser addas i sicrhau unffurfedd ar draws etholiadau.

118. Yn ail, mae natur ryng-gysylltiedig y systemau perthnasol a'r fframweithiau deddfwriaethol cysylltiedig, er enghraifft, o ran y cymalau cyllid gwleidyddol, yn golygu ei bod yn briodol i ddarpariaeth gael ei rhoi ar waith ym Mil y DU. Yn yr un modd, pan fo deddfwriaeth y DU yn cyffwrdd â materion datganoledig a materion cadwedig, mae'r Bil y DU hwn yn sicrhau bod amcanion polisi a rennir yn cael eu gwireddu'n effeithiol.

**Goblygiadau ariannol**

119. Bydd y newidiadau yn y Bil fel y'u hamlinellir yn y memorandwm hwn yn cael effaith ar etholiadau datganoledig, ond o ystyried natur y diwygiadau a'r ffaith eu bod yn cydgyfeirio ag etholiadau'r DU, ni ddylai hyn fod yn gyfystyr â baich ychwanegol gormodol. Mae Asesiad Effaith Llywodraeth y DU yn nodi effaith ariannol ragamcanol y mesurau sydd i'w cyflwyno gan y Bil.

120. Fel y nodir yn adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, mae cyllid y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau Cymreig datganoledig a refferenda Cymreig datganoledig yn daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Bil yn rhoi pwerau gorfodi pellach i'r Comisiwn Etholiadol mewn cysylltiad ag etholiadau datganoledig nad ydynt, hyd yma, wedi bod yn rhan o'n gofynion cyllidebol. Gallai'r newidiadau hyn arwain at gostau ychwanegol i'r Comisiwn Etholiadol y byddai angen iddynt, mewn meysydd datganoledig, gael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn ddarostyngedig i gytundeb gan y Senedd. Fel rhan o'r asesiad effaith ar gyfer y Bil, mae'r Comisiwn Etholiadol yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y costau diwygio rheoleiddio rhwng £6.7 miliwn ac £20.0

miliwn, gydag amcangyfrif canolog o £13.3 miliwn (prisiau 2025/26, gwerth presennol 10 mlynedd). I roi enghraifft, byddai hyn yn gyfwerth â chostau o oddeutu 80k y flwyddyn, yn ôl cyfran Cymru, ar gyfer yr amcangyfrif canolog. Mae’r ffigurau hyn yn seiliedig ar gynllun corfforaethol pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol.

121. Mae’r ffigurau hyn yn berthnasol i’r holl fesurau gorfodi gyda’i gilydd, oherwydd ni ellir gwahanu costau yn ôl mesur unigol. Mae’r amcangyfrif yn un dros dro a gall newid wrth i’r gwaith cynllunio manwl fynd rhagddo ochr yn ochr â’r broses o roi’r polisi ar waith.

**Casgliad**

122. Fel yr amlinellir uchod, yn ein barn ni, mae’n briodol ymdrin â’r darpariaethau y manylir arnynt yn y memorandwm hwn, i’r graddau y bônt yn effeithio ar feysydd datganoledig, yn y Bil y DU hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod y newidiadau, sy’n rhai gweithdrefnol eu natur yn bennaf, yn gyson ar draws gwahanol etholiadau yn y DU. O gydgyfeirio ar yr adeg hon, byddai’n helpu i osgoi sefyllfaoedd lle y byddai’n ofynnol i weinyddwyr roi gwahanol weithdrefnau ar waith ar gyfer gwahanol etholiadau, a thrwy hynny, byddai’n lleihau’r baich ariannol a’r baich o ran adnoddau yn y dyfodol ar Gymru ac ar y rheini sy’n cynnal etholiadau. Byddai hefyd yn lleihau dryswch ymhlith pleidleiswyr ac ymgeiswyr am fod gweithdrefnau’n wahanol. Felly, byddem yn cefnogi’r Bil hwn ac yn argymell bod y Senedd yn cydsynio i’r cymalau y manylir arnynt yn y memorandwm hwn.

123. Fodd bynnag, o ystyried amserlen ddisgwyliedig y Bil yn Senedd y DU, bydd y ddadl cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil hwn yn digwydd yn y Senedd nesaf. At hynny, mae’r argymhelliad hwn yn seiliedig ar y Bil fel y’i cyflwynwyd ar 12 Chwefror, a byddai angen i unrhyw welliannau i newid y darpariaethau hyn gael eu hystyried yn fanwl.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol**
**13 Mawrth 2026**